| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD: | 27 CHWEFROR 2014 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | CYTUNDEB CANLYNIAD 2013 - 2016 |
| DEILYDD PORTFFOLIO: | Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS |
| SWYDDOG ARWEINIOL: | PRIF WEITHREDWR |
| NATUR A RHESWM DROS ADRODD: | Cydymffurfio â pharagraff 4.5.16.10 Cyfansoddiad y Cyngor y bydd y penderfyniadau a gymerir fel mater o frys gan y Pwyllgor Gwaith yn cael eu hadrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf un o'r Cyngor Sir yn rhoi'r rhesymau am y brys |

**CYTUNDEB CANLYNIAD 2013 - 2016**

**Cefndir:**

Yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2014 ystyriodd y Pwyllgor Gwaith adroddiad brys gan y Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen ar drefniadau newydd ar gyfer Cytundeb Canlyniad 2013-16 gan geisio cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r cytundeb newydd 2013-16 yn seiliedig ar gyfarwyddyd terfynol Llywodraeth Cymru. Deliwyd â'r mater hwn fel mater brys o ystyried yr angen i gwblhau materion gyda Llywodraeth Cymru mor fuan ag oedd yn bosibl ac felly nid oedd modd ei alw-i-mewn.

Cyflwynwyd cytundebau canlyniad gan Lywodraeth Cymru er mwyn nodi sut yr ydym yn gweithio tuag at wella canlyniadau i bobl leol yn erbyn blaenoriaethau cenedlaethol y Llywodraeth. Byddai'r cytundeb cyfredol hwn yn gytundeb tair blynedd gyda'r taliad olaf yn cael ei wneud yn 2016-17. Telir y grant yn llawn (tua £730k) pan fo cyfran sylweddol o'r targedau a'r ymrwymiadau wedi eu cyflawni. Mae'r trefniadau a'r cyfarwyddyd ar gyfer y Cytundeb Canlyniad newydd wedi ei gwblhau gan Lywodraeth Cymru yn Hydref October 2013.

Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith *"gymeradwyo'r dewis o'r themâu a'r canlyniadau strategol newydd ar gyfer y Cytundeb Canlyniad tair blynedd newydd yn dechrau yn 2013-14 a derbyn adroddiad pellach ar gytundeb terfynol yn dilyn cwblhau trafodaethau gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru."*

Mae paragraff 4.5.16.10 Cyfansoddiad y Cyngor yn dweud bod yn rhaid i benderfyniadau a gymerir fel mater o frys gael eu hadrodd yn ôl i'r cyfarfod nesa fydd ar gael o'r Cyngor Sir, gan roi'r rhesymau am y brys. Mae'r Cyfansoddiad yn dweud hefyd bod yn rhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad a gynigiwyd yn rhesymol ym mhob amgylchiad a chaniatáu hefyd iddo gael ei drin fel mater o frys. Drwy amryfusedd, ni fodlonwyd y gofyn hwn cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ac ni ddywedwyd chwaith wrth Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y penderfyniad arfaethedig cyn iddo gael ei wneud. Fe wnaed y penderfyniad yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith yn amodol ar gymal y byddai'r ddau anghenraid hynny'n cael eu bodloni.

**Argymhelliad:**

Nodi cynnwys yr adroddiad.

**Richard Parry Jones** **14 Chwefror 2014**
**Prif Weithredwr**